LC190

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cyfyngu Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2001

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'u gwneud o dan y weithdrefn weithredol, yn rhoi cyfyngiadau ar waith ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid fel y'u nodir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2001/172/EC dyddiedig 1 Mawrth 2001. Cyfyngiadau sy'n ymwneud â chlwy'r traed a'r genau yw'r rhain.

Dim ond tan 9 Mawrth 2001 y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys (gweler Rheoliad 1(2)).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel pwyntiau y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Buasai'n ddefnyddiol pe bai'r Nodyn Esboniadol wedi cyfeirio at y ffaith mai dim ond tan 9 Mawrth 2001 y mae'r cyfyngiadau a osodir gan y Rheoliadau yn gymwys.

Er bod rhai swyddogaethau o dan y Rheoliadau wedi'u rhoi i'r Cynulliad, nodir bod Rheoliad 17 yn darparu i'r Rheoliadau gael eu gorfodi gan y Gweinidog Amaethyddiaeth neu'r awdurdodau lleol yn unig.

**Mick Bates AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Mawrth 2001